CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 22 HYDREF 2020 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 22 OCTOBER 2020, |

Fe’ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir o bell ar Dydd Iau, 22 Hydref 2020 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 16 Hydref 2020

# RECORDIO CYFARFOD

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio â'r bwriad o'i ddarlledu ar wefan y Cyngor yn ddiweddarach. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei recordio, ac eithrio pan fo eitemau cyfrinachol neu eitemau a eithrir. Caiff copi o'r cyfarfod ei gadw yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Os ydych yn gwneud sylw yn y cyfarfod hwn, ystyrir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio a/neu eich recordio.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau trwy ffonio 02920 872020 neu e-bostio Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 7 - 14)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 fel gwir gofnod.* | | |
| **4** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **5** | **Cwestiynau Cyhoeddus**<br><br>*Clywed y cwestiynau a gyflwynodd Aelodau'r Cyhoedd o flaen llaw.* | 4.40 pm | 5 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.45 pm | 5 mins |
| **7** | **Adroddiadau Cydymffurfio 2020/2021**<br>*(Tudalennau 15 - 324)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau*<br><br>**Eithrio'r Cyhoedd**<br><br>**Mae Atodiad B ac C o Atodiad 9 o'r adroddiad wedi'u heithrio o'u cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallai'r cyhoedd fod wedi'i wahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.** | 4.50 pm | 30 mins |
| **8** | **Adolygiad Trwyddedu o Ddatganiad Polisi Trwyddedu**<br>*(Tudalennau 325 - 398)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir* | 5.20 pm | 15 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig (yn masnachu fel Bws Caerdydd)**<br>*(Tudalennau 399 - 504)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau*<br><br>**Eithrio'r Cyhoedd**<br><br>**Mae Atodiad 1 – 8 a 10 o'r adroddiad wedi'u heithrio o'u cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 a Atodiad 6 o'r adroddiad wedi'u heithrio o'u cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 6 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallai'r cyhoedd fod wedi'i wahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.** | 5.35 pm | 30 mins |
| **10** | **Datganiadau Aelodau'r Cabinet**<br>*(Tudalennau 505 - 538)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.05 pm | 45 mins |
| **Toriad (6.50 - 7.05)** | | | |
| **11** | **Hysbysiad o Gynnig**<br>*(Tudalennau 539 - 542)*<br><br>*Dod allan o Argyfwng Covid-19: Cynnig gan y Cynulliad Dinasyddion*<br><br>*Noda'r cyngor y canlynol:*<br><br>*– Mae'r pandemig Covid-19 wedi dangos pa mor ddibynnol rydym ar ein gilydd er mwyn bwrw ymlaen, a beth y gallwn ei gyflawni wrth weithio gyda'n gilydd. Mae wedi dangos ein bod i gyd yn gryfach pan fydd ein gwasanaethau cyhoeddus ar eu cryfaf.*<br>*– Mae hefyd wedi dangos pwysigrwydd cydnabod nad oes mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau. Rydym yn mynd i gyfnod tyngedfennol; un cyfle sydd gennym i sicrhau newid ystyrlon ar gyfer y nifer fwyaf o bobl yn ein dinas ac ar ein huchelgais a rennir ar gyfer Caerdydd.*<br>*–Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud hyn gyda thrigolion Caerdydd ac nid iddynt. Yn rhy aml o lawer, wrth frysio i gyflawni pethau ers mis Mawrth, nid yw pethau'n cael eu gwneud yn iawn, ac mae trigolion yn ogystal ag aelodau ward yn cael gwybod am y newidiadau* yn hytrach na chael ymgynghori | 7.05 pm | 45 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arnynt.<br>*– P'un ai a ydym yn cytuno gyda nodau ac amcanion newidiadau arfaethedig ai peidio, ni all fod yn iawn bod newid yn cael ei weithredu yn y fath ffordd o'r top i lawr, sy'n peryglu cynyddu'r potensial am adlach ar gyfer y rhaid sy'n teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u digio, yn y pen draw yn bwrw'r ddinas yn ôl o ran ymgysylltu â'r cyhoedd ac atebion blaengar i broblemau cyn-Covid 19 y ddinas.*<br>*– Mae Cynulliadau Dinasyddion yn gorff o ddinasyddion y deuir â nhw ynghyd i bendroni ar faterion o bwys, maent yn defnyddio trawstoriad o'r cyhoedd i astudio opsiynau a chynnig atebion trwy drafodaeth resymegol a rhesymol a thrwy ymchwilio gan arbenigwyr, a'u nod yw ailosod ymddiriedaeth yn y broses wleidyddol trwy gymryd perchnogaeth uniongyrchol o'r broses o wneud penderfyniadau.*<br>*- Mae Cynulliadau Dinasyddion yn gynrychiadol ac yn gynhwysol, yn caniatáu mwy o amrywiaeth wybyddol, yn torri ffiniau democratiaeth uniongyrchol ac yn caniatáu trafodaeth.*<br>*Mae'r cyngor hwn yn galw am:*<br>*Greu Cynulliad Dinasyddion i bendroni a darparu adborth mewn amser real ar strategaeth Ailgychwyn, Adfer ac Adnewyddu Caerdydd er mwyn i'r newidiadau arfaethedig a fydd yn effeithio ar bobl yng Nghaerdydd ac o'i chwmpas yn cael eu gwneud gan drawstoriad mwy cynrychioladol ac amrywiol y cyhoedd, gan obeithio y gallwn ailosod ffydd yn ein proses wleidyddol trwy rannu perchnogaeth ar wneud penderfyniadau, a mynd â chymaint o drigolion gyda ni â phosibl wrth i ni symud allan o'r cyfnod cloi, tra ar yr un pryd yn byw o dan gyfyngiadau pandemig byd-eang.*<br><br>*Cynigiwyd gan y Cynghorydd Emma Sandrey*<br><br>*Eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Taylor* | | |
| **12** | **Materion Brys** | 7.50 pm | |
| **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **13** | **Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau Craffu**<br>*(Tudalennau 543 - 756)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.* | 7.50 pm | 10 mins |
| **14** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/2020**<br>*(Tudalennau 757 - 790)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau* | 8.00 pm | 10 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15** | **Trefniadau Uwch Reolwyr**<br>*(Tudalennau 791 - 802)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig* | 8.10 pm | 10 mins |
| **16** | **Penderfyniad Swyddog - yr Uwch Dîm Rheoli**<br>*(Tudalennau 803 - 806)* | 8.20 pm | 5 mins |
| **17** | **Aelodaeth Pwyllgorau**<br>*(Tudalennau 807 - 808)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro.* | | |
| **18** | **Penodi Llwyodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol**<br>*(Tudalennau 809 - 810)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro.* | | |
| **19** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |